# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Tachwedd 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 168(v4)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus:**

**Rhun Ap Iorwerth (Ynys Môn):** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â hyfforddi peilotiaid Saudi Arabia yn RAF y Fali?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

**NDM6857 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 17.3 a 17.13(ii), yn ethol Llyr Gruffydd (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol

(60 munud)

**NDM6852 Lynne Neagle (Torfaen)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 31 Hydref 2018.

## 6 Brexit a Chydraddoldebau – Canfyddiadau ar y cyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

(60 munud)

**NDM6848 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi casgliadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 'Brexit a Chydraddoldebau' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Hydref 2018.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Lluoedd Arfog

(60 munud)

**NDM6854** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Sul y Cofio eleni yn nodi canmlwyddiant Diwrnod y Cadoediad a ddiwedd y rhyfel byd cyntaf.

2. Yn croesawu ymgyrch 'Thank you 100' y Lleng Brydeinig Frenhinol, sy'n cofio'r rhai a wasanaethodd, aberthodd a newidodd ein byd rhwng 1914 a 1918.

3. Yn anrhydeddu cyfraniad y rheini sydd wedi gwasanaethu ac sy'n parhau i wasanaethu yn ein lluoedd arfog.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i benodi comisiynydd y lluoedd arfog i Gymru er mwyn sicrhau bod Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael ei gynnal.

Cyfamod y Lluoedd Arfog (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**
**Gwelliant 1 - Julie James (Gorllewin Abertawe)**
Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:
Yn croesawu penodi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog drwy Gymru a dull cydweithredol Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog o fynd ati i sicrhau bod Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael ei gynnal.

**Gwelliant 2 - Neil McEvoy (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau Deddf peidio â gadael yr un milwr ar ôl a fyddai'n gwarantu ansawdd tai a gofal iechyd i gyn-filwyr sydd wedi gweld gwasanaeth gweithredol.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6853** **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Cymru wledig - economi i'w hyrwyddo.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2018